**GWOBR YSGOLORIAETH GOFFA HYWEL TEIFI EDWARDS**
**AR GYFER ASTUDIAETH YMCHWIL ÔL-RADDEDIG 2023**

**CYMHWYSEDD, PROSES DDYRANNU A THELERAU**
**AC AMODAU PRIFYSGOL ABERTAWE**

Cymhwysedd:

1. Gwahoddir ceisiadau am yr ysgoloriaeth, gwerth £3000, gan unigolion sy'n dymuno astudio cwrs gradd ymchwil ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe yn un o'r meysydd astudio isod. Rhaid i ymgeiswyr feddu ar gynnig am gwrs gradd ymchwil ôl-raddedig yn Abertawe wrth dderbyn y wobr.

2. Gellir dyfarnu'r dyfarniad waeth beth fo oedran neu wlad breswyl yr ymgeisydd.

3. Mae'r wobr ar gael i ymgeiswyr sy'n ymrwymo i astudio ar gyfer gradd ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r meysydd astudio canlynol:

   - Yr Iaith Gymraeg
   - Hanes Cymru
   - Llenyddiaeth Gymraeg
   - Gwleidyddiaeth yng Nghymru
   - Y Cyfryngau yng Nghymru
   - Drama yng Nghymru
   - Crefydd yng Nghymru
   - Astudiaethau Diwylliannol Cymreig

4. Mae’n rhaid bod ymgeiswyr yn gwneud cais am PhD, MPhil neu MRes i ddechrau rhwng Awst 2023 a Gorffennaf 2024. Nid yw graddau Meistr a Addysgir yn gymwys.

5. Gwneir cais trwy ddarparu CV, llythyr cais ac amlinelliad o'r ymchwil o ddim mwy na 750 o eiriau erbyn y dyddiad cau a hysbysebir.

6. Mae'r wobr ar gael i ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar gyfer rhaglenni astudio amser llawn a rhan-amser.

7. Nid yw'r wobr yn ddibynnol ar brawf modd h.y. ni fydd yn dibynnu ar incwm teulu ymgeisydd.

8. Gellir ystyried ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fwrsariaethau neu ysgoloriaethau ôl-raddedig eraill.

9. Bydd yr ysgoloriaeth ar gael bob dwy flynedd. Dim ond un Ysgoloriaeth a ddyfernir mewn blwyddyn, fel arfer.

Dyrannu:

10. Dewisir yr ymgeisydd gan banel wedi ei bennu gan Academi Hywel Teifi, gan ddefnyddio'r CV, y llythyr cais a'r amlinelliad o ymchwil a gyflwynir.

11. Dyfernir yr ysgoloriaeth i ymgeisydd cymwys sy'n derbyn cynnig o le i astudio ar gyfer gradd ymchwil ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe rhwng Awst 2023 a Gorffennaf 2024.

12. Mae dyfarniad llawn yn werth £3,000. Bydd pob ymgeisydd, sy'n astudio ar batrwm amser llawn neu ran-amser, yn derbyn y swm llawn wrth gofrestru ym Mhrifysgol Abertawe.

Amodau a Thelerau:

13. Ni ellir gohirio ysgoloriaethau. Mae’n rhaid i ymgeiswyr dderbyn y wobr erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr dyfarnu.

14. Pe bai'r Ysgoloriaeth yn cael ei chynnig i ymgeisydd ond yn cael ei gwrthod cyn cofrestru, bydd yn cael ei chynnig i ymgeisydd wrth gefn. Hysbysir ymgeiswyr cyn gynted â phosibl, fodd bynnag, cynghorir

ymgeiswyr ar y rhestr wrth gefn i chwilio am ffynonellau cyllido amgen gan nad oes sicrwydd y bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei dyrannu.

15. Anogir deiliaid ysgoloriaeth i gymryd rhan yng ngweithgareddau marchnata a recriwtio’r Brifysgol ac i ymwneud â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg Academi Hywel Teifi.

16. Un o ofynion yr Ysgoloriaeth yw eich bod yn cwblhau eich astudiaethau yn llwyddiannus a'ch bod yn cwblhau'r gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.

17. Un o ofynion yr Ysgoloriaeth yw y bydd y derbynnydd yn darparu copi o'i ymchwil wedi'i gwblhau i Academi Hywel Teifi i'w gadw yn ei llyfrgell.

18. Ar ôl dyfarnu'r Ysgoloriaeth, pe bai'r ymgeisydd yn tynnu'n ôl o'i radd Ymchwil Ôl-raddedig, bydd yr Ysgoloriaeth yn cael ei dileu'n llawn a bydd y myfyriwr yn atebol am ad-daliad llawn o'r swm.

19. Os bydd myfyriwr yn gohirio ei radd Ymchwil Ôl-raddedig ar ôl dyfarnu’r Ysgoloriaeth, bydd yr Ysgoloriaeth yn cael ei chanslo ac ni* chaiff ei hail-ddyfarnu os bydd y myfyriwr yn ailgydio yn ei astudiaethau. Bydd rhaid i'r myfyriwr ad-dalu unrhyw swm mae wedi'i dderbyn eisoes gan y fwrsariaeth a bydd yn atebol yn bersonol am dalu unrhyw ffioedd dysgu sy'n weddill wrth ailgofrestru. **Os yw myfyrwyr yn gohirio am resymau personol anorchfygol (er enghraifft, iechyd, mamolaeth), mae'n bosib y bydd ganddynt hawl i dderbyn gweddill eu gwobr wrth ailgydio yn eu hastudiaethau. Gwneir penderfyniadau fesul achos gan Banel Ysgoloriaeth Academi Hywel Teifi.*

<u>Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):</u>

Os ydych yn gwneud cais am Ysgoloriaethau Goffa Hywel Teifi, bydd yn ofynnol i Brifysgol Abertawe gasglu, storio, defnyddio a phrosesu gwybodaeth amdanoch chi, at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio ac am resymau y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau cyn ymrwymo i gytundeb dan gontract gyda'r Brifysgol.